## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

**1. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswyddau clir ar gyrff yn y sector cyhoeddus i atal gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb i bobl â Nodweddion Gwarchodedig penodol, sef oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth.

Mae'r Cod Ymarfer ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth yn nodi'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig â swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a swyddogaethau gwasanaethau iechyd byrddau iechyd lleol a chyrff ymddiriedolaethau'r GIG, sy'n ymwneud ag ystod ac ansawdd y gwasanaethau a ddylai fod ar gael yn eu hardaloedd lleol i blant, pobl ifanc ac oedolion awtistig a'u teuluoedd a/neu eu gofalwyr. Mae'r Cod yn atgyfnerthu'r fframweithiau cyfreithiol sydd eisoes ar waith drwy nodi darpariaethau ac yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff perthnasol arfer eu priod swyddogaethau yn unol â gofynion yn y Cod wrth drefnu neu ddarparu gwasanaethau i bobl awtistig (gan gynnwys plant) ar gyfer gwasanaethau awtistiaeth.

Wrth ystyried yr opsiynau yn y Cod, ystyriwyd yr effaith debygol mewn perthynas â thegwch i grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Mae dyletswyddau penodol yn ymwneud â darparu addasiadau rhesymol i bobl anabl, gan gynnwys pobl awtistig, er mwyn eu helpu i ddefnyddio'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Atgyfnerthir y dyletswyddau hyn drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf GIG (Cymru) 2006.

Cydnabyddir effaith awtistiaeth fel anabledd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Felly, diogelir hawliau unigolion gan y gyfraith a dylai gwasanaethau drafod ffyrdd y gallant addasu cymorth a chefnogaeth gydag unigolion. Gall problemau synhwyraidd, cymdeithasol a gwybyddol fod yn rhwystrau i bobl awtistig ac, felly, mae angen ystyried addasiadau rhesymol a'u rhoi ar waith.

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 Llywodraeth Cymru yn nodi ein nodau a'n hamcanion cydraddoldeb ar gyfer y pedair blynedd nesaf, ynghyd â'r prif gamau gweithreddu i gyflawni'r amcanion hynny. Bwriedir i'r Cod ymgorffori dull o ymdrin â gwasanaethau awtistiaeth sy'n seiliedig ar bob un o'r ffactorau hyn.

Mae'r nodau hirdymor yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r Cod wedi'u nodi ac, wrth ochr pob un, ceir tystiolaeth o ble mae'r cod yn cyfrannu at gyflawni'r nodau hyn:

***Nod Hirdymor 2:*** *Mesurau amddiffyn cydraddoldeb a hawliau dynol cryf a blaengar i bawb yng Nghymru.*

Mae'r Cod yn tynnu sylw at y dyletswyddau sydd wedi'u gosod ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG i sicrhau bod hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth wedi'i gynnwys mewn rhaglenni hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth cyffredinol a gynigir i bob aelod o staff sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Rhaid i fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn hygyrch i bobl awtistig ac na wrthodir rhoi gwasanaethau na chymorth iddynt am eu bod yn awtistig.

***Nod Hirdymor 3****: Bydd anghenion a hawliau pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig yn flaenllaw yn y broses o gynllunio a darparu pob gwasanaeth cyhoeddus datganoledig yng Nghymru.*

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r Model Cymdeithasol o Anabledd. Mae'r Model hwn yn nodi gwahaniaeth pwysig rhwng *'nam'* ac *'anabledd'*. Mae'n cydnabod bod pobl â namau yn cael eu hanablu gan rwystrau sy'n gyffredin mewn cymdeithas. Mae'r rhwystrau hyn yn cynnwys agweddau negyddol, a rhwystrau ffisegol a sefydliadol, a all atal pobl anabl rhag cymryd rhan a chael eu cynnwys ym mhob rhan o fywyd.

Buom yn gweithio gyda grwpiau sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchodedig i ddatblygu'r Cod er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys canlyniadau a pholisïau sy'n ei gwneud yn bosibl i'w hanghenion cael eu diwallu ac i'w gofynion gael eu bodloni. Un cam gweithredu o'r fath yw'r gofyniad i sicrhau cynrychiolaeth ar y bwrdd partneriaeth rhanbarthol drwy rôl yr hyrwyddwr awtistiaeth.

Mae'r cod yn ystyried gofynion Deddf Cydraddoldeb 2018 mewn perthynas ag addasiadau rhesymol. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar ddarparwyr gwasanaethau a'r rhai sy'n darparu nwyddau a chyfleusterau i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl awtistig er mwyn sicrhau nad ydynt o dan anfantais o gymharu â phobl heb awtistiaeth. Mae'n ofynnol i ddarparwyr wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl awtistig fesul achos.

***Nod Hirdymor 6:*** *Cymru o gymunedau cydlynus sy'n gydnerth, yn deg ac yn gynhwysol.*

Mae adran 3 o'r Cod yn canolbwyntio ar y trefniant i hyrwyddo cynnwys pobl awtistig mewn gwasanaethau prif ffrwd drwy sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r gymuned ehangach er mwyn meithrin dealltwriaeth o awtistiaeth a'r ffordd y gall bod yn awtistig gael effaith wahanol ar bob unigolyn.

Mae'r adran hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd codi ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn y gymuned. Er mwyn creu cymdeithas sy'n cynnwys pobl awtistig,

mae angen sicrhau bod cyflwr awtistiaeth yn cael ei ddeall gan bob rhan o'r gymuned.

Mae'r Cod yn tynnu sylw at yr angen i sicrhau bod anghenion defnyddwyr gwasanaeth wrth wraidd y gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol, yn enwedig gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, er mwyn iddynt allu ymateb i anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig.

***Nod Hirdymor 7***: *Gall pawb yng Nghymru gymryd rhan mewn bywyd gwleidyddol, bywyd cyhoeddus a bywyd pob dydd.*

Mae'r Cod, wrth godi ymwybyddiaeth o ofynion cyfathrebu pobl awtistig, yn tynnu sylw at yr angen i wasanaethau cymunedol addasu arferion er mwyn sicrhau y caiff pobl awtistig eu cynnwys.  Un enghraifft fyddai sicrhau bod anghenion synhwyraidd yn cael eu hystyried, megis sŵn uchel neu oleuadau llachar a allai fod yn rhwystr i gynnwys pobl awtistig a'u hatal rhag ymgysylltu.  Mae'r Cod hefyd yn pwysleisio bod angen cynnwys pobl awtistig mewn penderfyniadau amdanyn nhw a'r gwasanaethau y maent yn eu cael, am fod angen cyd-gynhyrchu a chydweithio gyda phobol awtistig.

***Nod Hirdymor 8***: *Bydd y sector cyhoeddus yng Nghymru yn arwain y ffordd fel sefydliadau a chyflogwyr cynhwysol ac amrywiol sy’n dangos esiampl.*

Mae'r Cod yn gymwys i gyrff yn y sector cyhoeddus (awdurdodau lleol) ac yn tynnu sylw at y gofyniad yn Neddf Cydraddoldeb 2010, sy'n gosod dyletswydd gyfreithiol ar ddarparwyr gwasanaethau a'r rhai sy'n darparu nwyddau a chyfleusterau i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl awtistig er mwyn sicrhau nad ydynt o dan anfantais o gymharu â phobl heb awtistiaeth.  Mae'n ofynnol i ddarparwyr wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl awtistig fesul achos.

Mae'r Cod hefyd yn datgan y dylai darparwyr gynnal proses gwmpasu gyda sefydliadau a gweithwyr proffesiynol lleol er mwyn nodi pa fath o addasiadau rhesymol sydd eu hangen ar y gymuned awtistig leol a sut i'w gwneud.  Mae'r Cod yn gosod cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol (gan gynnwys darparwyr gwasanaethau wedi'u comisiynu) i sicrhau bod hyfforddiant awtistiaeth yn cynnwys y sgiliau i wneud addasiadau rhesymol.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian i'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol a phrif nod ei waith yw sicrhau y gall pobl ag awtistiaeth yng Nghymru a'u gofalwyr a'u teuluoedd gael gwybodaeth, gwasanaethau a chymorth sy'n diwallu eu hanghenion.  Mae wedi sefydlu presenoldeb ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol ac, yn ddiweddar, ail-ddyluniodd ei wefan er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn fwy hygyrch i bob person awtistig.  Mae gan y wefan adran benodedig sy'n ymdrin ag anghenion cyflogwyr – i wella sgiliau, gwybodaeth a

dealltwriaeth o awtistiaeth a gwybod sut i gefnogi cyflogeion awtistig yn fwy effeithiol.

- *Sut y bydd y cynnig yn hyrwyddo cydraddoldeb (Gweler y dyletswyddau cyffredinol)?*

  Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r Model Cymdeithasol o Anabledd. Mae'r Model hwn yn nodi gwahaniaeth pwysig rhwng 'nam' ac 'anabledd'. Mae'n cydnabod bod pobl â namau yn cael eu hanablu gan rwystrau sy'n gyffredin mewn cymdeithas. Mae'r rhwystrau hyn yn cynnwys agweddau negyddol, a rhwystrau ffisegol a sefydliadol, a all atal pobl anabl rhag cymryd rhan a chael eu cynnwys ym mhob rhan o fywyd. Adlewyrchir dull y Model Cymdeithasol yn y Cod.

  Bydd y Cod yn sicrhau bod gwell ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau y mae gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG ddyletswydd i'w darparu. Bydd hyn yn gwella gwasanaethau i oedolion ag awtistiaeth ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal. Mae'r Cod yn pwysleisio'n gryf fod gan bobl awtistig hawl gyfartal i gael y safon iechyd uchaf y gellir ei chyrraedd a manteisio ar gyfleusterau ar gyfer trin salwch ac adsefydlu iechyd. Rhaid i fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG geisio sicrhau na chaiff yr un unigolyn awtistig ei amddifadu o'i hawl i gael gwasanaethau gofal iechyd o'r fath.

  Ymhlith y meysydd gwaith cysylltiedig eraill sy'n cael eu cefnogi/datblygu mae:

  - Gwella'r modd y darperir gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag awtistiaeth drwy raglen T4CYP[1].
  - Gwella gwasanaethau diagnostig i oedolion a phlant, a fydd yn ystyried yr angen i gyfieithu adnoddau diagnostig i'r Gymraeg.
  - Adnoddau a chanllawiau a gaiff eu llunio gan y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud yn benodol ag awtistiaeth

  Mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod canllawiau i'r sector cyhoeddus ar awtistiaeth ar gael yn ddwyieithog.

  Er mwyn cyflawni'r dyletswyddau cyffredinol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010:

  - Ni chaiff y Cod unrhyw effaith uniongyrchol o ran dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu nac erledigaeth nac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.

[1] Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc

- Fodd bynnag, bydd y Cod yn hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r rhai nad ydynt yn eu rhannu, drwy hyrwyddo ymwybyddiaeth o gyflwr Awtistiaeth a sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r gymuned ehangach er mwyn meithrin dealltwriaeth o awtistiaeth a'r ffordd y gall bod yn awtistig gael effaith wahanol ar bob unigolyn.
- Drwy'r ymwybyddiaeth hon o awtistiaeth, bydd y Cod yn meithrin cydberthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu.  Mae'r Cod yn cydnabod y Model Cymdeithasol o Anabledd, a bydd yn ei ddefnyddio i greu cymdeithas sy'n cynnwys pobl awtistig, gan fod angen sicrhau bod pob rhan o'r gymuned yn deall y cyflwr awtistiaeth.  Dylai awdurdodau lleol fel darparwyr/comisiynwyr cyfleusterau sydd ar gael i'r cyhoedd, ynghyd â darparwyr yn y sector iechyd a'r trydydd sector, addasu eu gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion pobl awtistig, gan ddileu rhwystrau i'w cynnwys.

- *Beth yw'r effeithiau negyddol posibl ar bobl mewn grwpiau gwarchodedig a'r rhai sy'n byw mewn cartrefi incwm isel a sut y byddwch yn eu lliniaru?*

  Nid oes unrhyw effeithiau negyddol hysbys ar grwpiau gwarchodedig na'r rhai sy'n byw mewn cartrefi incwm isel.

- *Pa rwystrau, os o gwbl, a wynebir gan bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig? A ellir lleihau, dileu neu liniaru'r rhwystrau hyn?*

  Disgrifir rhai rhwystrau uchod. Er mwyn dileu rhwystrau, gall gwasanaethau i gefnogi pobl ag awtistiaeth helpu'n anuniongyrchol i fynd i'r afael â gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth y gall rhai pobl eu hwynebu oherwydd eu sgiliau cyfathrebu cymdeithasol cyfyngedig. Ochr yn ochr â hyn fydd y gwaith rydym yn ei hyrwyddo i godi ymwybyddiaeth o anghenion penodol pobl ag awtistiaeth, yn arbennig yn y gweithle a lleoliadau cyhoeddus eraill megis ysbytai ac ati.  Mae'r Cod yn cydnabod bod gan bobl awtistig hawl gyfartal i gael y safon iechyd uchaf y gellir ei chyrraedd a manteisio ar gyfleusterau ar gyfer trin salwch ac adsefydlu iechyd.  Rhaid i fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG geisio sicrhau na chaiff yr un unigolyn awtistig ei amddifadu o'i hawl i gael gwasanaethau gofal iechyd o'r fath.

- *Sut rydych wedi defnyddio'r wybodaeth rydych wedi'i chael o waith ymchwil, neu sut y byddwch yn ei defnyddio, i nodi effeithiau?*

  Comisiynodd Llywodraeth Cymru werthusiad annibynnol o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig a oedd yn cynnwys adolygiad o lenyddiaeth benodol ar effaith y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig yng Nghymru. Cyhoeddwyd y gwerthusiad llawn ym mis Chwefror 2016.  Ni nododd y

gwerthusiad hwn unrhyw faterion a oedd yn ymwneud ag effaith awtistiaeth ar grwpiau gwarchodedig nac effaith darparu gwasanaethau ar grwpiau gwarchodedig.

Gofynnodd yr ymgynghoriad ar y Cod ddau gwestiwn am nodweddion gwarchodedig. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y bydd y Cod yn cael effaith gadarnhaol ar anabledd ar gyfer pobl awtistig, am y bydd yn gwella'r gwasanaethau y maent yn eu cael ac yn sicrhau bod eu barn yn cael ei chlywed. Cododd ymatebwyr eraill bryderon y gallai'r Cod arwain at bwysau ar wasanaethau i 'hidlo' a blaenoriaethu cyflyrau ar y sbectrwm awtistig o'r llwybr niwroddatblygiadol, a fyddai'n peri risg o greu 'grŵp canol' o blant ag ADHD, anhwylderau prosesu synhwyraidd, anableddau dysgu a'r rhai sydd wedi profi trawma cronig nad oedd eu hanghenion yn cael eu diwallu. Er mwyn mynd i'r afael â'r risg hon, fel y nodir isod, caiff effaith y Cod ei monitro a chaiff rhagor o waith ei wneud mewn perthynas â darparu gwasanaethau niwroddatblygiadol a'r galw amdanynt.

- *Sut y byddwch yn gwybod a yw eich darn o waith wedi llwyddo?*

Caiff effaith y Cod Ymarfer ei monitro o'r adeg y caiff ei roi ar waith ym mis Medi 2021 a bydd gwerthusiad annibynnol yn dechrau ar ôl iddo fod ar waith am ddwy flynedd.

Yn 2021, mae adolygiad o gapasiti gwasanaethau niwroddatblygiadol a'r galw amdanynt yn cael ei gynnal a bydd rhan ohono yn dangos lle mae bylchau o ran darparu gwasanaethau, a fydd yn llywio'r gwerthusiad sydd i'w gynnal yn y dyfodol. Yn benodol, bydd y gwaith hwn yn edrych ar yr effaith y mae prosesau cynllunio a darparu gwasanaethau niwroddatblygiadol yn ei chael ar hyn o bryd ar unigolion â nodweddion gwarchodedig fel y'u nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, yn ogystal â'r gallu i weithredu'r 'Cynnig Gweithredol', fel y'i nodir yn Mwy na geiriau, sef y Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol, a'r effaith bosibl arnynt yn y dyfodol.

- *A ydych wedi datblygu fframwaith canlyniadau i fesur yr effaith?*

Er mwyn mesur effaith y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ar fywydau pobl awtistig, nodwyd bod y Seren Canlyniadau yn adnodd mesur addas. Mae'r Seren Canlyniadau yn adnodd seiliedig ar dystiolaeth sy'n cefnogi ac yn mesur newid wrth weithio gyda phobl. Mae'n adnodd cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, canlyniadau a chryfderau. Drwy gydol 2020, cafodd staff y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig hyfforddiant ar y Seren Canlyniadau ac maent wedi dechrau ei defnyddio fel ffordd o fesur cynnydd pobl wrth gael cymorth gan y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig.

**Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig:**

Drwy roi ystyriaeth lawn i'r effeithiau ar gydraddoldeb, gallai'r Cod Ymarfer atgyfnerthu gwell gofal cymdeithasol i bobl yng Nghymru fel y nodir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a chael effeithiau cadarnhaol ar gydraddoldeb ar gyfer grwpiau gwarchodedig. Rhagwelir y bydd y cod yn hwyluso'r broses o feithrin cydberthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r rhai nad ydynt yn eu rhannu, er enghraifft drwy godi ymwybyddiaeth ymhlith cymunedau lleol.

**<u>Oedran</u>**

Mae'r term 'pobl' yn y cod yn cyfeirio at blant, pobl ifanc ac oedolion. Mae'r Cod yn cydnabod pob unigolyn, waeth beth fo'i oedran.

*Plant a Phobl Ifanc:*

Nod y Cod yw gwella mynediad at wasanaethau asesu, diagnosis a chymorth i blant a phobl ifanc ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff gydymffurfio â safonau llwybrau cenedlaethol fel y'u datblygwyd gan Raglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc (T4CYP)[2] a safonau amseroedd aros cenedlaethol Llywodraeth Cymru.

Mae'r gwaith o ddatblygu polisi mewn perthynas â gwasanaethau niwroddatblygiadol i blant, sy'n cynnwys gwasanaethau awtistiaeth, yn mynd rhagddo fel rhan o Raglen 2 Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc (T4CYP2). Mae'r rhaglen yn gweithio i wella'r gwasanaethau a chymorth llesiant emosiynol ac iechyd meddwl sydd ar gael i blant a phobl ifanc yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar dri maes, sef:

- Cymorth Cynnar a Chefnogaeth Uwch
- Gwasanaethau Niwroddatblygiadol
- Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

Mae'r rhaglen yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys y Comisiynydd Plant, Senedd Ieuenctid Cymru, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Chynghorau Ieuenctid er mwyn sicrhau ymgysylltu a chyd-gynhyrchu, gan wneud yn siŵr y gwrandewir ar farn plant a phobl ifanc ac y caiff ei hystyried.

*Oedolion*:

Mae'r 7 Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yng Nghymru yn cynnig asesiadau diagnostig o awtistiaeth i oedolion (weithiau ar y cyd â gwasanaethau eraill) a chymorth a chyngor i oedolion awtistig, rhieni/ gofalwyr a gweithwyr proffesiynol.

[2] https://collaborative.nhs.wales/networks/wales-mental-health-network/together-for-children-and-young-people-2/resources-links/resources-and-links/t4cyp-2-programme-overview-2020-2022-v0-5-pdf/

Cyflwynwyd y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig o fis Ebrill 2016 ac mae ar gael ym mhob rhan o Gymru. Mae'n cynnwys cefnogi oedolion ag awtistiaeth drwy asesiad a diagnosis a rhoi cymorth ar ôl diagnosis.

**Anabledd**

Mae'r Cod Ymarfer yn ystyried anableddau niwroddatblygiadol, corfforol a synhwyraidd sy'n cydfodoli, a all fod yn fwy cyffredin ymhlith pobl awtistig.

Mae'r Cod yn tynnu sylw at y gofyniad yn Neddf Cydraddoldeb 2010, sy'n gosod dyletswydd ar ddarparwyr gwasanaethau a'r rhai sy'n darparu nwyddau a chyfleusterau i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl awtistig er mwyn sicrhau nad ydynt o dan anfantais o gymharu â phobl heb awtistiaeth.  Mae'n ofynnol i ddarparwyr wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl awtistig fesul achos.

**Ailbennu Rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol)**

Er bod tystiolaeth anecdotaidd sy'n tynnu sylw at brofiad pobl awtistig o fod yn drawsryweddol, prin yw'r dystiolaeth i ddangos sut y gall bod yn awtistig effeithio ar bobl drawsryweddol.

Caiff y Cod Ymarfer ei werthuso o fewn dwy flynedd i gyhoeddi'r Cod.  Bydd hyn yn helpu Llywodraeth Cymru i wybod p'un a yw'r polisi wedi llwyddo ai peidio o ran nodweddion gwarchodedig megis Ailbennu Rhywedd.  Mae angen gwneud rhagor o waith yn y maes hwn a bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio mynd i'r afael â hyn yn ein cynllun cyflawni ar gyfer y Cod Ymarfer.

**Beichiogrwydd a Mamolaeth**

Cydnabuwyd y gallai menywod awtistig sy'n feichiog wynebu anawsterau gyda gwasanaethau mamolaeth, lle nad yw'r gwasanaethau hyn, o bosibl, yn deall effaith awtistiaeth ar y fam.

Yn 2018, datblygodd Grŵp Llywio Iechyd Meddal Amenedigol Cymru Gyfan (AWPNMHSG), gan weithio gyda chydweithwyr o Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Canllawiau ar gyfer Darparu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Amenedigol Integredig yng Nghymru (Iechyd Cyhoeddus Cymru, Mehefin 2018).

Mae'r Gwasanaeth Sicrhau Gwybodaeth yn cydweithio â'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol i ddiweddaru'r llwybr integredig cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau Iechyd Amenedigol. Nodwyd rhai problemau yn ystod y broses ddiweddaru am na roddodd sylw i anghenion unigolion ag anhwylderau niwroddatblygiadol na rhieni â chyflyrau eraill sy'n cyd-ddigwydd.  Mae Gweithgor Amenedigol Cenedlaethol wedi'i sefydlu a bydd yn rhoi sylw i faterion megis:

- beth yw'r prif rwystrau a phroblemau o ran menywod awtistig a gwasanaethau iechyd meddwl/mamolaeth amenedigol;
- themâu allweddol ac atebion a awgrymir;
- diffyg gwybodaeth gymwys am awtistiaeth mewn timau iechyd meddwl amenedigol;
- cyrsiau rhianta nad ydynt wedi'u cynllunio ar gyfer rhieni awtistig sy'n gofalu am blant;
- tadau awtistig sydd â phartner nad yw'n awtistig a sut i ddeall taith eu partner yn ystod ei beichiogrwydd;
- profiad menywod awtistig o roi genedigaeth a'r trawma posibl sy'n gysylltiedig â hynny a'r profiad ohono;
- taith menywod awtistig yn ystod eu beichiogrwydd.

Mae'r Cod Ymarfer ei hun yn cynnwys gwelliannau i hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol. Bydd hyn yn cynnwys obstetryddion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ym maes bydwreigiaeth.

**<u>Hil (gan gynnwys lleiafrifoedd ethnig gwahanol, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid)</u>**

Gall pobl awtistig o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig neu sy'n geiswyr lloches neu'n ffoaduriaid a'u rhieni a'u gofalwyr wynebu heriau ychwanegol o ran cael gafael ar wasanaethau a chymorth. Yn yr adroddiad, 'Diverse Perspectives: The challenges for families affected by autism from Black, Asian and Minority Ethnic communities' (2014), tynnodd y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth sylw at yr anawsterau y gall pobl awtistig sy'n byw mewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig eu hwynebu. Yn gyffredinol, maent yn wynebu'r un anawsterau o ran cael gafael ar wasanaethau a chymorth â phobl o rannau eraill o'r gymuned ond caiff problemau eu gwaethygu gan ffactorau megis safbwyntiau diwylliannol ar anabledd mewn rhai cymunedau. Mewn rhai grwpiau gall stigma difrifol fod yn gysylltiedig â phlentyn anabl a nododd rhieni eu bod yn teimlo cywilydd am fod y gymuned yn rhoi'r bai arnyn nhw am ymddygiad gwael canfyddedig eu plant awtistig a bod y cymunedau yn aml yn chwilio am ffordd o wella'r cyflwr. Gallai tybiaethau a rhagfarn ddiwylliannol hefyd gael effaith negyddol. Er enghraifft, ystyrir bod bechgyn du yn fwy tebygol o fod yn aflonyddgar ac mae anawsterau iaith yn cael eu priodoli'n anghywir i'r ffaith bod plentyn yn siarad Saesneg fel ei ail iaith. Dylai darparwyr gwasanaethau fod yn ymwybodol y gall gwasanaethau diwylliannol effeithio ar y canfyddiad o bobl awtistig a'r cymorth a roddir iddynt, ac addasu eu harferion i gydnabod y gwahaniaethau hyn.

Bydd y Cod yn cael effaith gadarnhaol ar y cymunedau hyn am fod cymorth i bobl awtistig a'u rhieni/gofalwyr mewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig wedi bod yn elfen allweddol o'r gwaith a wneir gan y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol (a ariennir gan Lywodraeth Cymru). Er enghraifft: mae wedi bod yn rhoi

gwybodaeth a chymorth penodol i gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn ei gylchlythyr ynglŷn â COVID-19

Mae eitemau a gyhoeddir yn rheolaidd ar y cyfryngau cymdeithasol gan y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol yn ymgysylltu â chymunedau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru ac yn siarad yn uniongyrchol â nhw.  Mae eitemau o'r fath yn tynnu sylw at adnoddau megis Llinell Gymorth amlieithog Cymru i leiafrifoedd ethnig; adnoddau addysgol i ysgolion addysgu disgyblion am hiliaeth, cydraddoldeb ac amrywiaeth; adnoddau awtistiaeth i Bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a ddarperir gan sefydliadau megis Ambitious about Autism; y wybodaeth ddiweddaraf gan Grŵp Cynghori COVID-19 Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru; a mwy. Hefyd, dathlodd y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol "Diwrnod Gwisgo Coch 2020", a gynhaliwyd gan ymgyrch Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol y Tîm.

**Crefydd, cred a diffyg cred**

Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai'r Cod yn cael effaith gadarnhaol na negyddol ar unigolion oherwydd eu crefydd, eu cred neu eu diffyg cred. Nid yw rhanddeiliaid wedi nodi y dylai hwn fod yn faes ar gyfer gwaith ymchwil yn y dyfodol, er y gallai fod yn werth ei ystyried ymhellach.

**Rhyw / Rhywedd**

*Dynion:*

Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall dynion fod hyd at bedair gwaith yn fwy tebygol o gael diagnosis o awtistiaeth o gymharu â merched a menywod. Mae'r rhesymau dros hyn yn amrywio, ond gellir eu cysylltu ag astudiaethau sy'n dangos bod menywod yn fwy abl i guddio symptomau cyflyrau ymwybyddiaeth newidiedig (ASC) drwy ymddygiad dynwaredol ac ati. Mae pryder wedi'i leisio ynghylch effaith wahaniaethol awtistiaeth ymhlith merched ac mae clinigwyr yn ymwybodol iawn o hyn.  Am y rheswm hwn, ni chaiff y Cod unrhyw effaith wahaniaethol ar ddynion.

*Menywod:*

Yn hanesyddol, mae cyfradd diagnosis awtistiaeth ymhlith merched a menywod wedi bod yn llawer is nag ar gyfer bechgyn a dynion. Er mai prin yw'r ymchwil sydd wedi'i gwneud, mae tystiolaeth a thystiolaeth glinigol anecdotaidd yn awgrymu bod y gwahaniaeth hwn mewn cyfraddau diagnostig i'w briodoli i sawl ffactor. Mae'r rhain yn cynnwys y ffordd y mae merched a menywod yn ymgyflwyno, maent yn aml yn fwy abl i guddio ymddygiad drwy wylio pobl eraill o'u hamgylch a'u dynwared. Awgrymir hefyd fod adnoddau diagnostig safonol wedi'u teilwra'n fwy tuag at adnabod awtistiaeth glasurol a welir gan amlaf mewn bechgyn a dynion, tra bod merched a menywod yn

gallu dangos awtistiaeth mewn ffordd fwy cynnil sy'n golygu ei bod yn anodd gwneud diagnosis ohono. Mae'n bwysig bod gweithwyr proffesiynol yn deall sut y gall merched a menywod awtistig ymgyflwyno'n wahanol ac y gall fod ganddynt anghenion cymorth gwahanol. Er enghraifft, gall merched ymddangos yn fwy abl i gynnal cydberthnasau cymdeithasol ond, mewn gwirionedd, maent yn blino'n lân wrth geisio addasu eu hymddygiad eu hunain i ddynwared ymddygiad pobl eraill a'r hyn yr ystyrir ei fod yn fwy derbyniol. At hynny, mae cerrig milltir pwysig mewn bywyd lle y gallai fod angen mwy o gymorth unigol ar fenywod, megis yn ystod blaenaeddfedrwydd a beichiogrwydd. Bydd y Cod yn cael effaith gadarnhaol ar fenywod.

**Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol) a Hunaniaeth o ran Rhywedd**

Mae corff cynyddol o lenyddiaeth sy'n cysylltu awtistiaeth â hunaniaeth o ran rhywedd/dysfforia rhywedd, gyda chyfran uwch o bobl awtistig yn nodi eu bod yn uniaethu'n seicolegol â rhywedd sy'n wahanol i'r un a bennwyd iddynt pan gawsant eu geni. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod angen gwella gwasanaethau hunaniaeth o ran rhywedd ac wedi sefydlu Grŵp Partneriaeth Hunaniaeth o ran Rhywedd Cymru i roi cyngor. Mae Tîm Rhywedd Cymru wedi'i leoli yn Ysbyty Dewi Sant yng Nghaerdydd. Gellir defnyddio unrhyw wybodaeth o'r gwasanaeth hwn i lywio unrhyw fersiynau dilynol o'r Cod.

Mae *Umbrella Cymru* yn darparu cymorth gan gymheiriaid i unrhyw un ar y rhestr aros am apwyntiad gyda'r Tîm Rhywedd. Mae hyn yn cynnig cyfle i unigolion gael cyswllt rheolaidd gan rywun sydd â phrofiad personol o anghydweddiad rhywedd a phrosesau trawsnewid ac mae'n bwynt cyswllt iddynt ofyn am unrhyw gymorth ychwanegol y gallai fod ei angen arnynt.

**Priodas a Phartneriaeth Sifil**

Nid oes unrhyw effeithiau negyddol hysbys o ran y categori priodas a Phartneriaeth Sifil.

**Cartrefi Incwm Isel**

Nid oes unrhyw effeithiau negyddol hysbys ar grwpiau gwarchodedig na'r rhai sy'n byw mewn cartrefi incwm isel.

**Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig**

Nid oes yr un elfen o'r Cod hwn yn mynd yn groes i unrhyw ran o'r Hawliau Dynol na Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig.

Mae'r Cod hwn yn atgyfnerthu'r fframweithiau cyfreithiol sydd eisoes ar waith ac yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff perthnasol arfer eu priod swyddogaethau yn

unol â'r Cod wrth drefnu neu ddarparu gwasanaethau i bobl awtistig.  Bydd hyn yn sicrhau bod byrddau iechyd lleol, Ymddiriedolaethau ac awdurdodau lleol a'u partneriaid yn deall y dyletswyddau presennol i ddarparu gwasanaethau awtistiaeth sy'n seiliedig ar anghenion, gan gynnwys cymorth i ofalwyr a'r ddyletswydd i godi ymwybyddiaeth ymhlith pobl awtistig o'r cymorth a ddylai fod ar gael.